# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

*Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)*

**Adran:**

*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:**

*Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dyddiad Dechrau:**

*Dyddiad Cyflwyno yn y Cynulliad - 17 Mehefin 2019*

**Cyfeiriad e-bost:**

*HSCQualityandEngagement@gov.wales*

## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

1. Mae'r Bil yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:

- cryfhau'r ddyletswydd ansawdd bresennol sydd ar gyrff GIG ac ymestyn hwn i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd
- gosod dyletswydd gonestrwydd sefydliadol ar ddarparwyr gwasanaethau'r GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaethau pan aiff pethau o'u lle
- cryfhau llais dinasyddion, drwy ddisodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned gyda chorff newydd ar gyfer Cymru gyfan, sef Corff Llais y Dinesydd, a fydd yn cynrychioli buddiannau pobl ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol
- galluogi Is-gadeiryddion i gael eu penodi ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG, yn yr un modd â byrddau iechyd.

2. Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i lunio gweithdrefn i'w dilyn gan gorff GIG pan fydd y ddyletswydd gonestrwydd wedi'i thanio.

## Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

3. Ymgynghorwyd am y tro cyntaf ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) fel rhan o'r Papur Gwyrdd: Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd, rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2015. Edrychodd y Papur Gwyrdd ar p'un a allai deddfwriaeth helpu ymdrechion i wella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru ymhellach. Cyhoeddwyd adroddiad yn rhoi crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2016. I weld yr adroddiad ewch i: https://llyw.cymru/papur-gwyrdd-ein-hiechyd-ein-gwasanaeth-iechyd

4. Ar ôl ystyried yr ymatebion, nododd y Llywodraeth nifer o gynigion i'w cynnwys yn y Papur Gwyn: Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol, Ansawdd a Llywodraethiant ym maes Iechyd a Gofal yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad rhwng 28 Mehefin a 29 Medi 2017. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2018 ac i weld yr adroddiad ewch i: https://llyw.cymru/gwasanaethau-syn-addas-ir-dyfodol

5. Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyniadau mewn nifer o gyfarfodydd rhanddeiliaid cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chynnal nifer o ddigwyddiadau rhwng 18 a 28 Medi mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru. Daeth nifer o bobl i'r digwyddiadau hyn o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn ymgynghoriadau yn draddodiadol gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr, pobl ifanc, pobl hŷn a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

6. Cyn cyflwyno'r Bil presennol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Llywodraeth

Cymru wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i egluro'r cynigion yn fwy manwl, clywed barn y rheini sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau hyn a deall yr effeithiau.

## Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?

7. Ochr yn ochr â'r costau a'r manteision a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ystyriwyd nifer o effeithiau eraill a chynhaliwyd asesiad effaith integredig. Mae crynodeb o ganfyddiadau'r broses hon ar gael isod.

8. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi dod i'r casgliad na fydd gan y Bil rôl uniongyrchol o ran hyrwyddo hawliau plentyn neu berson ifanc ac ni ddisgwylir iddo gael unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn amlinellu rhai meysydd lle y mae'n bosibl y caiff effeithiau cadarnhaol canlyniadol eu gwireddu, megis y rhai posibl o ganlyniad i Gorff Llais y Dinesydd sy'n darparu cyngor a chymorth ar gwynion i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt hawl statudol ar hyn o bryd i gael eiriolwr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

9. Ystyriwyd effaith bosibl y Bil ar bobl mewn grwpiau sydd wedi'u diogelu a'r rheini sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nod y cynigion yw bod yn fuddiol i iechyd a lles poblogaeth Cymru gyfan; gwnaeth asesiad o gydrannau gwahanol y Bil ganfod effaith gadarnhaol net ar y dinasyddion hynny mewn grwpiau hyglwyf a grwpiau sydd wedi'u diogelu. Gwnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd ystyried unrhyw gamau lliniaru y gellir eu cymryd i ddelio â'r effeithiau negyddol posibl a nodwyd; risgiau megis bod yr unigolion hynny sy'n cael cymorth gan y Cynghorau Iechyd Cymunedol yn cael gwasanaethau gwael yn ystod y cyfnod trosglwyddo i Gorff Llais y Dinesydd

10. Ystyriodd yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig effaith y Bil ar gymunedau gwledig ac unigolion sy'n byw yn y cymunedau hynny. Canfu'r asesiad y bydd y cynigion, ar y cyfan, yn cael effaith gadarnhaol net gymharol fach ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig; gyda Corff Llais y Dinesydd yn meddu ar y potensial i gryfhau llais cymunedau gwledig o ran dylunio'r gwasanaethau y maent yn eu cael a'r ddyletswydd ansawdd i sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu gwerthuso ar sail diffiniad ehangach o ansawdd sy'n cynnwys profiad y claf. Tynnodd yr Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig sylw at rai effeithiau negyddol posibl o ran mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd lleol ac argymhellodd y byddai'n rhaid mynd ati i ystyried camau lliniaru i ddelio â'r risgiau hyn wrth benderfynu ar y model gweithredu ar gyfer y corff newydd.

11. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd mewn perthynas â'r Bil. Ni fydd y ddyletswydd ansawdd, y ddyletswydd gonestrwydd na'r pŵer i benodi Is-Gadeiryddion ar gyfer Ymddiriedolaethau yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddata personol eraill yn cael eu cadw neu eu prosesu gan y cyrff perthnasol. Wrth greu Corff Llais y Dinesydd yn gorff corfforaethol bydd yn ofynnol iddo ymdrin â data a arferai gael eu cadw o fewn systemau'r GIG. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar

Breifatrwydd wedi ystyried y goblygiadau'r newid hwn ac wrth gymryd camau i liniaru’r risgiau posibl, bydd y tîm gweithredu arfaethedig a sefydlwyd i gyflwyno'r Corff yn ystyried pa ddata sydd angen eu trosglwyddo er mwyn galluogi'r corff newydd i ddiwallu ei rwymedigaethau, a pha fesurau fydd eu hangen i sicrhau bod y corff yn parhau i gydymffurfio â goblygiadau statudol ac arferion gorau o ran ymdrin â data.

12. Edrychwyd ar yr effaith ar y Gymraeg drwy Asesiad Effaith ar y Gymraeg. Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil gael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg. Mae cynigion penodol, megis Dyletswydd Ansawdd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod profiad y claf yn cael ei ystyried wrth gynllunio gwasanaethau a'u gwerthuso, a'r bwriad i Gorff Llais y Dinesydd recriwtio o'r boblogaeth leol i sicrhau demograffeg sy'n cynrychioli'r ardal leol, yn debygol o gefnogi proses lle mae cleifion yn cael gofal yn eu dewis iaith ac yn eu cymunedau lleol.

13. Ystyriwyd effaith y Bil ar fioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac adnoddau naturiol, a daethpwyd i'r casgliad na fyddai effaith uniongyrchol ar y meysydd hyn. Ystyriwyd nad oedd hi’n ofynnol cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol nag ychwaith Asesiad Effaith ar Gyllidebau Carbon ar gyfer y Bil.

14. Gwnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd werthuso'r effeithiau a ragwelir o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth fel y'i drafftiwyd a daethpwyd i'r casgliad y byddai rhoi ansawdd yn rhan ganolog o'r broses o wneud penderfyniadau yn gwella canlyniadau iechyd pobl Cymru ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol cyffredinol i leihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

15. Daeth asesiad o'r effaith ar gyfiawnder i'r casgliad nad yw'r cynigion yn y Bil yn debygol o gael fawr o effaith ar y system gyfiawnder os o gwbl.

## Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

16. Bydd y Bil yn cyflwyno dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd, disodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned gyda chorff newydd, sef Corff Llais y Dinesydd, ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru benodi is-gadeiryddion ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG.

17. Yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd y cynigion yn y Bil yn cefnogi **cydweithio** ac **integreiddio** ymhlith sefydliadau'r GIG, a rhwng y sefydliadau hynny a chyrff eraill. Bydd yn gwneud hyn drwy sicrhau bod yr ystyriaethau o ran ansawdd bellach yn canolbwyntio ar ystyried effaith penderfyniadau ar ansawdd gyffredinol y gwasanaethau yn hytrach nag ystyried ansawdd gwasanaethau unigol yn unig.

18. Bydd ddarpariaethau'r Bil o ran dyletswydd gonestrwydd yn helpu sefydliadau'r GIG i fod yn sefydliadau dysgu, gan gefnogi gwelliannau **hirdymor** ac **atal** amrywiad a chamgymeriadau sy'n digwydd dro ar ôl tro. Bydd y corff llais y dinesydd newydd yn cefnogi **cynnwys** y cyhoedd wrth gynllunio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

19. Bydd y darpariaethau yn y Bil hefyd yn cyfrannu at y nodau llesiant mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

20. **Cymru o Gymunedau Cydlynus:** bydd hi'n ofynnol i'r corff newydd, Corff Llais y Dinesydd ceisio barn pobl Cymru a chynrychioli'r farn honno, gan gynnwys holl gymunedau Cymru a demograffeg amrywiol y wlad. Drwy recriwtio sylfaen o wirfoddolwyr sy'n cynrychioli cymunedau lleol a thrwy roi llais i'r cymunedau hynny wrth wneud penderfyniadau, bydd y corff newydd yn cefnogi cymunedau cynaliadwy, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da;

21. **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu:** Bydd hefyd yn ofynnol i'r corff newydd hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu ei wasanaethau, i gefnogi cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn ogystal, mae tystiolaeth o Gymru ac ymchwil rhyngwladol ar gymunedau dwyieithog yn dangos bod rhwystrau ieithyddol wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal yn gallu cyfrannu at brofiadau gwael i gleifion. Mae'r ddyletswydd ansawdd yn rhoi diffiniad ehangach o ansawdd sy'n cynnwys profiad y claf, ac o ganlyniad gellir disgwyl y bydd angen i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud am wasanaethau yn y dyfodol hefyd ystyried yr effaith y bydd y penderfyniadau hynny yn ei chael ar bobl sy'n agored i niwed a'u teuluoedd y mae angen mynediad arnynt at wasanaethau yn eu mamiaith, er enghraifft pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu sydd wedi cael strôc ac sydd o bosib wedi colli eu hail iaith, neu blant ifanc iawn sydd efallai ond yn siarad Cymraeg.

22. **Cymru Iachach**: Bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr GIG ddilyn gweithdrefn er mwyn hysbysu defnyddwyr gwasanaeth, neu eu cynrychiolwyr, pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u gofal ac i gyhoeddi adroddiad cyhoeddus bob blwyddyn ar y gwersi a ddysgwyd yn dilyn unrhyw gamgymeriadau a wnaed. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i bobl pe bai rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u gofal neu driniaeth gan y GIG y byddant yn cael eu trin mewn ffordd agored ac onest. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r cysylltiad rhwng bod yn fwy agored, tryloyw a gonest a darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol o safon well, a bod sefydliadau sy'n fwy agored a thryloyw yn fwy tebygol o sicrhau eu bod yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau, yn hytrach na chuddio problemau neu fod yn rhy amddiffynnol yn eu cylch. Mae'r dull agored hwn o weithredu yn cefnogi cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

## Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?

23. Mae hwn yn Fil amlochrog a bydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol i alluogi gweithredu mewn nifer o feysydd cysylltiedig er mwyn bwrw ymlaen â gwella a dysgu ac atal niwed sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

24. Mae'r dull gweithredu a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datblygu, lle bynnag y bo'n bosibl, prosesau cynllunio ac adrodd presennol er mwyn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer dangos canlyniadau ac effeithiau heb bwysau ychwanegol gorfodol. Bydd y dull hwn yn sail i'r gwaith monitro a gwerthuso sy'n gysylltiedig â'r Bil, gan ddefnyddio data gweinyddol a data arolwg a gesglir yn rheolaidd, ochr yn ochr â thystiolaeth ansoddol gan rhanddeiliaid allweddol a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau.

25. Caiff rhaglen fonitro a gwerthuso ei datblygu i gyd-fynd â gweithgareddau allweddol, a rhoddir ystyriaeth i ystod o ddulliau ymchwil a gwerthuso, gan ddibynnu ar natur y data sy'n ofynnol. O ystyried y canlyniadau amrywiol a ragwelir o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth, mae'n bwysig nodi y bydd rhai elfennau o'r dull o weithredu yn berthnasol ar draws y materion gwahanol y mae'r Bil yn mynd i'r afael â hwy.

26. Er nad oes modd llunio'r fethodoleg werthuso benodol yn derfynol hyd nes y cytunir ar y manylion o ran gweithredu gwahanol feysydd o'r Bil, ac, er y bydd data iechyd rheolaidd yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr, rhaid nodi bod nifer o'r materion sy'n cael eu diwallu gan y Bil hefyd yn cael eu diwallu gan ddulliau gweithredu eraill.

27. Er enghraifft, gallai'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â sefydlu Corff Llais y Dinesydd yn y pen draw wella boddhad defnyddwyr y gwasanaeth a chyfrannu at GIG sy'n fwy cynaliadwy os defnyddir yr adborth gan y cyhoedd i wella'r gwasanaeth yn rheolaidd. Fodd bynnag, o ystyried yr amgylchedd gwleidyddol ac ariannol ehangach y mae'r GIG yn gweithredu ynddi ar hyn o bryd, afrealistig fyddai tybio na fyddai unrhyw ffactorau eraill yn dylanwadu ar foddhad y cyhoedd/defnyddwyr y gwasanaeth yn ystod y broses weithredu ac ar ôl hynny. Byddai'n anodd felly i briodoli'n llwyr rhai o'r tueddiadau ar lefel y boblogaeth (a fydd efallai yn dod i'r amlwg ddata fel hyn) i effeithiau'r Bil.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35774 ISBN Digidol 978-1-83876-458-6